Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
09/2021
Dyddiad cyhoeddi:
16/02/2021

# Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 2, 2019

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80082-816-2

# Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: arolwg Ton 2, 2019

Awdur:

Chris Timmins, Beaufort Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Ymwybyddiaeth a Barn y Cyhoedd am Ddeddfwriaeth Arfaethedig ar Gosbi Plant yn Gorfforol - Tachwedd 2019, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad YGLI 09/2019.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/agweddau-cyhoeddus-gosbi-plant-yn-gorfforol-cam-2-2019

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Alyson Lewis:

Yr Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl y cynnwys

Rhestr o ffigurau a thablau ........ 2

1. Cyflwyniad ........ 4
2. Agweddau tuag at smacio ........ 6
3. Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth bresennol ........ 10
4. Ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i’r ddeddfwriaeth ........ 13
5. Barn am newidiadau arfaethedig i’r ddeddfwriaeth ........ 20
6 Casgliadau ........ 26

Atodiad A – Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar rianta ........ 28
Atodiad B – Holiadur yr arolwg ........ 29
Atodiad C – Dull ymchwil ........ 32
Atodiad D – Disgrifiad o’r newid arfaethedig i’r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i ymatebwyr yn arolwg mis Tachwedd 2019 ........ 34
Atodiad E – Diffiniad o raddau cymdeithasol ........ 35
Atodiad F – Meintiau is-samplau ........ 36

## Rhestr o ffigurau a thablau

Ffigur 2.1: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb – 2018 o'i gymharu â 2019)........ 6

Ffigur 2.2: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb a pha un a ydynt yn gofalu'n rheolaidd am blentyn saith oed ac iau)........ 7

Ffigur 2.3: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl grŵp oedran)........ 8

Ffigur 2.4: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol) ........ 9

Ffigur 3.1: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb – 2018 o'i gymharu â 2019)........ 10

Ffigur 3.2: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl grŵp oedran)........ 11

Ffigur 3.3: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol a pha un a ydynt yn gofalu'n rheolaidd am blentyn saith oed ac iau)........ 11

Ffigur 3.4: Y ganran a oedd yn meddwl bod pob lefel o gosb yn cael ei chaniatáu gan y gyfraith bresennol ........ 12

Ffigur 4.1: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb – 2018 o'i gymharu â 2019) ........ 13

Ffigur 4.2: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn gofalu'n rheolaidd am blentyn saith oed ac iau)........ 14

Ffigur 4.3: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl oedran a gradd gymdeithasol) ........ 15

Tabl 4.1 : Allwch chi ddweud wrthyf sut y gallai'r gyfraith newid yn eich tyb chi? [Digymell] 15

Tabl 4.2: Sut y daeth pobl yn ymwybodol y gallai'r gyfraith newid mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol – y ganran a roddodd bob ateb [Digymell]........ 16

Ffigur 4.4: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb – 2018 o'i gymharu â 2019) 17

Ffigur 4.5: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn gofalu'n rheolaidd am blentyn saith oed ac iau)........ 18

Ffigur 4.6: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl grŵp oedran a gradd gymdeithasol) ........ 19

Ffigur 5.1: Barn am y newid arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb – 2018 o'i gymharu â 2019) ........ 20

Ffigur 5.2: Barn am y newid arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn gofalu'n rheolaidd am blentyn saith oed ac iau) 21

Ffigur 5.3: Barn am y newid arfaethedig i ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (Pawb ac yn ôl grŵp oedran) 22

Tabl 5.1: Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? [Digymell] 23

Tabl 5.2: Allwch chi ddweud wrthyf pan eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? [Digymell] 24

Tabl 5.3: Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen? [Digymell] 25

Tabl A.1: Ymchwil Flaenorol Berthnasol gan Lywodraeth Cymru 28

Tabl A.2: Diffiniadau o raddau cymdeithasol 35

Tabl A.3: Meintiau samplau'r is-grwpiau 36

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Y cefndir a'r amcanion

1.1 Cyflwynwyd y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 25 Mawrth 2019. Ar 20 Mawrth 2020 cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Bydd y ddeddf newydd yn dod i rym ar 21 Mawrth 2022.

1.2 Amcan trosfwaol y ddeddfwriaeth yw helpu i amddiffyn hawliau plant trwy wahardd defnyddio cosb gorfforol yn erbyn plant, trwy gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Byddai hyn yn golygu nad yw'r amddiffyniad ar gael mwyach o fewn tiriogaeth Cymru i rieni neu'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis (yn gweithredu â chyfrifoldeb rhiant), fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin ar blentyn neu guro plentyn sydd yn eu gofal.

1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhedeg ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith, cyn ac ar ôl iddi ddod i rym.

1.4 Amcan yr ymchwil hon oedd adeiladu ar linell sylfaen ymchwil a gynhaliwyd yn 2018 o ran agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol gan gynnwys y ddeddfwriaeth arfaethedig. Cyflawnwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolwg hwn ym mis Tachwedd 2019 tra'r oedd proses graffu Cyfnod 3 y Bil yn mynd rhagddi, bedwar mis cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Roedd proses y Bil wedi dechrau trwy gyflwyno'r Bil ar 25 Mawrth, gyda phroses graffu Cyfnod 1 yn digwydd wedyn cyn y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol ar 17 Medi a thrafodion Cam 2 ar 24 Hydref. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailadrodd y cwestiynau hyn yn rheolaidd i dracio ymwybyddiaeth a barn y cyhoedd wrth i ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd fynd rhagddo dros nifer y flynyddoedd.

## 1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1.5 Mae'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ar Arolwg Omnibws Cymru Beaufort ym mis Tachwedd 2019 a gyfwelodd â sampl seiliedig ar gwota cynrychiolaidd o 1,002 o oedolion 16+ oed ledled Cymru yn eu cartref eu hunain. Mae hyn yn cynnwys rhieni/gwarcheidwaid ac oedolion nad ydynt yn rhieni/gwarcheidwaid. Mae canfyddiadau o'r arolwg hwn yn cael eu cymharu'n fynych yn yr adroddiad hwn â set union yr un fath o gwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Omnibws Cymru Beaufort ym mis Tachwedd 2018. Cynhelir pob Arolwg Omnibws Cymru gyda samplau cynrychiolaidd ar wahân o oedolion 16+ yng Nghymru sy'n cyfateb â'i gilydd o ran demograffeg megis oedran, rhyw, rhanbarth a gradd gymdeithasol. Mae'r gwaith hwn yn rhan o gyfres o ymchwil rhianta a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2013. Ceir tabl o adroddiadau yn Atodiad A.

1.6 Roedd yr holiadur ar gyfer yr arolwg hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau am agweddau tuag at smacio, ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol ac ymwybyddiaeth a barn am newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth. Cafodd cwestiynau demograffig eu cynnwys hefyd fel arfer safonol yn arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dewis y cyfranogwr ac mae i'w gael yn Atodiad B ar ddiwedd y ddogfen hon.

## 1.3 Profion ystadegol


1.7 Drwy'r adroddiad hwn dygir cymariaethau rhwng gwahanol grwpiau o'r boblogaeth (er enghraifft, y rhai o wahanol grwpiau oedran neu ryw) i ddeall a yw eu hagweddau, eu hymddygiadau neu eu gwybodaeth yn amrywio. Ceir cymariaethau hefyd rhwng arolwg 2019 ac arolwg 2018 a nodir uchod i ganfod a fu newidiadau dros amser. Mae'r adroddiad yn defnyddio profion ystadegol i gymharu canlyniadau rhwng grwpiau o'r boblogaeth a hefyd i gymharu canlyniadau dros amser. Lle nodir bod gwahaniaeth rhwng dau grŵp yn 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad drwy siawns yn llai nag un mewn 20 ac felly y gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

1.8 Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg yn Atodiad C.

# 2. Agweddau tuag at smacio

2.1 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn*. Roedd y farn ynglŷn â hyn wedi'i hollti i ryw raddau, er bod mwy yn anghytuno â'r gosodiad hwn (55%) nag oedd yn cytuno ag ef (31%). Mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfrannau sy'n anghytuno ac yn cytuno â'r gosodiad yn fwy na'r gwahaniaeth a oedd yn bodoli yn arolwg 2018 (49% yn anghytuno, 35% yn cytuno). Cafodd y gwahaniaeth hwn dros amser ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 2.1: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb – 2018 o'i gymharu â 2019)**




*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002)*

2.2 Roedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed neu iau, sef rhieni, gwarcheidwaid neu aelodau eraill o'r teulu sy'n rhoi gofal rheolaidd, yn fwy tebygol o anghytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn* – 70% o'i gymharu â 53% ymhlith y rhai heb gyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau (ffigur 2.2). Caiff y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.2: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb a pha un a ydynt yn gofalu'n rheolaidd am blentyn saith oed ac iau)**





*Sail: Pawb (1,002), Yn gofalu'n rheolaidd am blentyn 7 oed ac iau (179), Ddim yn gofalu'n rheolaidd am blentyn 7 oed ac iau (823)*

2.3 Er bod y gwahaniaeth uchod rhwng y rhai â chyfrifoldeb gofalu a heb gyfrifoldeb gofalu am blant dan saith wedi'i ganfod yn arolwg 2018 hefyd, mae'r ddau grŵp yn nodi newid yn eu barn ers yr arolwg blaenorol. Roedd cyfanswm o 70% o'r rhai â chyfrifoldeb gofalu am blant saith oed ac iau'n anghytuno â'r gosodiad yn 2019 o'i gymharu â 59% yn 2018. Ar gyfer y rhai heb y cyfrifoldebau hyn, roedd 53% bellach yn anghytuno o'i gymharu â 46% yn 2018. Cafodd gwahaniaethau yma dros amser ill dau eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

2.4 Fel a ddangosir yn ffigur 2.3, pan ydym yn archwilio hyn yn ôl oedran yr ymatebydd, rydym yn canfod bod y rhai yn y grŵp oedran hŷn (55+) yn fwy tebygol o gytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn* – roedd y gyfran hon o 45% deirgwaith yn fwy na nifer y rhai 16-34 oed a oedd yn arddel y farn hon (15%). Cafodd y gwahaniaethau a nodwyd yn ôl oedran eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Canfuwyd

gwahaniaeth yn ôl grŵp oedran yn 2018 hefyd, ond ymddengys fod hwn wedi mynd yn fwy fel a nodir ym mharagraff 2.5.

**Ffigur 2.3: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl grŵp oedran)**




*Sail: Pawb (1,002), 16-34 (308), 35-54 (280), 55+ (414)*


2.5 Er nad yw'r farn ymhlith y rhai yn y grŵp oedran 35-54 a 55+ wedi newid rhyw lawer ers 2018, mae'r grŵp oedran iau (pobl 16-34 oed) bellach hyd yn oed yn llai tebygol o gytuno (ac yn fwy tebygol o anghytuno) *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn'* – dim ond 15% sy'n cytuno â hyn yn 2019 o'i gymharu â 24% yn 2018. Caiff y gwahaniaeth a ganfuwyd ym marn y grŵp oedran hwn dros amser ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

2.6 Mae ffigur 2.4 yn dangos canfyddiadau ar gyfer yr un mesur yn ôl gradd gymdeithasol[1]. Roedd barn y rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1[2] yn debyg i farn y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE. Mae hyn yn cyferbynnu â 2018 pan ganfu'r arolwg fod y rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 yn llai tebygol o gytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn*.

[1] System ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth prif enillydd incwm yr aelwyd yw gradd gymdeithasol.

[2] Ceir diffiniadau o raddau cymdeithasol A, B, C1, C2, D, E yn Atodiad E

**Ffigur 2.4: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol)**




*Sail: Pawb (1,002), ABC1 (516), C2DE (486)*


2.7 Mae'r tebygrwydd barn rhwng pobl yng ngraddau ABC1 a phobl yng ngraddau C2DE a ganfu yn arolwg 2019 yn adlewyrchu newid ym marn pobl yng ngradd gymdeithasol C2DE. Yn 2018, roedd 39% yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' o'i gymharu â 32% yn 2019. Caiff y gwahaniaeth hwn dros amser ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

## 3. Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth bresennol

3.1 Y sefyllfa gyfreithiol bresennol o ran smacio neu gosbi plant yn gorfforol mewn ffordd arall yng Nghymru yw bod rhieni ac oedolion sy'n gweithredu in loco parentis (yn gweithredu â chyfrifoldeb rhiant) yn gallu dibynnu ar amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin. Nid yw rhieni sy'n cosbi eu plant yn gorfforol yn gallu defnyddio'r amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiadau o greulondeb, clwyfo neu ymosodiadau sy'n achosi gwir niwed corfforol neu niwed corfforol difrifol. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn egluro fel a ganlyn: "er bod unrhyw anaf sy'n fwy nag 'anaf dros dro neu fân anaf' yn gallu cael ei ystyried yn wir niwed corfforol, y cyhuddiad priodol fydd Ymosod Cyffredin lle nad oes unrhyw anaf yn digwydd neu lle ceir anafiadau nad ydynt yn ddifrifol".

3.2 Roedd ychydig dros hanner (55%) y bobl a arolygwyd yn meddwl nad oedd y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant. Roedd bron i 3 ymhob 10 (28%) yn meddwl nad oedd y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio a dywedodd yr 17% sy'n weddill eu bod yn ansicr. Mae'r cyfrannau hyn yn debyg i'r rhai a ganfuwyd yn arolwg 2018.


**Ffigur 3.1: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb – 2018 o'i gymharu â 2019)**




*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002)*

3.3 Y rhai 35-54 oed oedd fwyaf tebygol o gredu bod smacio'n cael ei ganiatáu (32%), er eu bod yn dal yn y lleiafrif. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw wahaniaethau yn ôl oedran eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly ni ellir eu cyffredinol i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 3.2: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl grŵp oedran)**




*Sail: Pawb (1,002), 16-34 (308), 35-54 (280), 55+ (414)*

3.4 Nid yw gwybodaeth am y gyfraith ar smacio'n dangos rhyw lawer o wahaniaethau yn ôl gradd gymdeithasol a pha un a yw unigolyn yn ofalwr am blant saith oed ac iau ai peidio. Mae oddeutu 3 ymhob 10 ym mhob grŵp, fel a ddangosir yn ffigur 3.3, yn credu bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant. Mae hyn yn debyg i'r canfyddiadau yn arolwg 2018.

**Ffigur 3.3: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol a pha un a ydynt yn gofalu'n rheolaidd am blentyn saith oed ac iau)**





*Sail: Pawb (1,002), Yn gofalu'n rheolaidd am blentyn 7 oed ac iau (179), Ddim yn gofalu'n rheolaidd am blentyn 7 oed ac iau (823), ABC1 (516), C2DE (486)*

3.5 Wedyn hysbyswyd yr unigolion fod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio eu plant neu eu disgyblu'n gorfforol a gofynnwyd i'r ymatebwyr pa lefel o gosb oedd y gyfraith yn ei chaniatáu yn eu tyb hwy. Mae'r opsiynau a roddwyd iddynt i'w cael yn Ffigur 3.4 ynghyd â'r gyfran o bobl a oedd yn meddwl bod pob lefel yn cael ei chaniatáu (roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn).

3.6 Roedd oddeutu tri chwarter (73%) yn meddwl y byddai cosb nad oedd yn gadael unrhyw farc o gwbl ar y plentyn yn cael ei chaniatáu gan y gyfraith. Roedd llawer llai (22%) yn meddwl y byddai cosb a oedd yn achosi i'r croen gochi dros dro yn cael ei chaniatáu. Dim ond cyfran fach iawn oedd yn meddwl y byddai lefelau uwch o gosb gorfforol megis rhywbeth sy'n gadael clais am ychydig ddyddiau (2%) neu'n gadael marciau neu gleisiau sy'n para am yn hwy nag ychydig ddyddiau ond nad yw'n arwain at anaf corfforol parhaol (1%) yn cael eu caniatáu gan y gyfraith. Dywedodd oddeutu 1 ym mhob 6 (15%) nad oeddent yn gwybod pa lefel o gosb fyddai'n cael ei chaniatáu. Roedd y canfyddiadau'n debyg i'r rhai a gafwyd yn arolwg 2018.

**Ffigur 3.4: Y ganran a oedd yn meddwl bod pob lefel o gosb yn cael ei chaniatáu gan y gyfraith bresennol**





*Sail: Pawb (1,002)*

# 4. Ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth

4.1 Dywedodd ychydig dros 4 ymhob 10 (42%) o bobl eu bod yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol ar lefel ddigymell[3]. Roedd hyn yn cymharu â ffigwr cyfatebol o 28% yn arolwg 2018 a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig. Caiff y cynnydd hwn dros amser mewn ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.1: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb – 2018 o'i gymharu â 2019)**





*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002)*

4.2 Nid oedd ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn uwch o gwbl ymhlith gofalwyr am blant saith oed ac iau nag oedd ymhlith y rhai a oedd heb y cyfrifoldebau hyn – 41% o'i gymharu â 43% (ffigur 4.2)

[3] Ni chafodd yr ymatebwyr unrhyw fanylion ar gyfer newidiadau posibl ar yr adeg hon a gofynnwyd iddynt yn syml '*Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?'*

**Ffigur 4.2: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn gofalu'n rheolaidd am blentyn saith oed ac iau)**





*Sail: Pawb (1,002), Yn gofalu'n rheolaidd am blentyn 7 oed ac iau (179), Ddim yn gofalu'n rheolaidd am blentyn 7 oed ac iau (823)*

4.3 Yn achos y rhai sy'n gofalu am blant saith oed ac iau a'r rhai sydd heb y cyfrifoldebau hyn, cofnodwyd codiadau mewn ymwybyddiaeth ddigymell o'r newidiadau arfaethedig ers arolwg 2018 (25% o'i gymharu â 41% a 29% o'i gymharu â 43% yn y drefn honno). Caiff y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

4.4 Fel a ddangosir yn ffigur 4.3, roedd gwahaniaethau o ran ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig yn digwydd yn ôl oedran a gradd gymdeithasol fel yr oedd hi gydag arolwg 2018. Roedd y rhai 16-34 oed (24%) yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o newid posibl nag ymatebwyr hŷn. Yn yr un modd, roedd y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE (38%) yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o newid posibl na'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1. Cafodd y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.3: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl oedran a gradd gymdeithasol)**




*Base: All (1,002), 16-34 (308), 35-54 (280), 55+ (414), ABC1 (516), C2DE (486)*

4.5 Nodwyd lefelau uwch o ymwybyddiaeth ym mhob grŵp oedran a'r holl grwpiadau cymdeithasol yn 2019 o'i gymharu â 2018. Cafodd yr holl wahaniaethau ac eithrio ar gyfer pobl 16-34 oed (2018 – 19%, 2019 – 24%) eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

4.6 Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o newidiadau posibl i ddeddfwriaeth (421 o ymatebwyr) ddisgrifio yn eu geiriau eu hunain sut yr oeddent yn meddwl y gallai'r gyfraith newid. Wedyn cafodd eu hymatebion eu grwpio'n themâu ac fe'u dangosir yn nhabl 4.1. Yr ymateb mwyaf mynych o bell ffordd oedd y byddai smacio'n cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ y bydd yn anghyfreithlon. Fe wnaeth oddeutu 7 ymhob 10 (69%) o'r rhai a oedd yn ymwybodol o newid grybwyll hyn yn ddigymell. Nid oedd cyfanswm o 8% a oedd wedi dweud yn flaenorol eu bod yn ymwybodol o newid yn gallu dweud beth fyddai'r newid hwnnw.

**Tabl 4.1: Allwch chi ddweud wrthyf sut y gallai'r gyfraith newid yn eich tyb chi? [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr *(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Smacio \ cosbi'n gorfforol yn cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ y bydd yn anghyfreithlon | 69 (*n.293)* |
| Ddim yn gwybod | 8 (*n.32)* |
| **Ymatebion eraill a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mae newid yn cael ei drafod (amhenodol) | |
| Syniad da \ ddim yn cytuno â smacio | |

| | |
|---|
| Dim cyswllt corfforol o gwbl |
| Cosbau i'r rhai sy'n smacio plant |
| Wedi gweld \ clywed rhywbeth amdano (amhenodol) |
| Ro'n i'n meddwl bod smacio eisoes yn anghyfreithlon |

*Sail: Y rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol – digymell (421)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

4.7 Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg i'r rhai a ganfuwyd yn arolwg 2018 pan mai *Smacio \ cosbi'n gorfforol yn cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ y bydd yn anghyfreithlon* oedd yr ateb a grybwyllwyd yn fwyaf mynych o bell ffordd (73% o'r rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau).

4.8 Gofynnwyd hefyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o newidiadau posibl i'r ddeddfwriaeth ddweud sut yr oeddent wedi dod yn ymwybodol o'r newid (tabl 4.2). Gweld rhywbeth yn y newyddion / mewn rhaglen ar y teledu oedd yr ymateb mwyaf mynych o bell ffordd (fel yn 2018) gyda chwech ymhob deg (60%) o'r rhai a oedd yn ymwybodol o newid yn dweud mai dyma oedd eu ffynhonnell. Newyddion / rhaglen ar y radio oedd yn ail (12%) ac yna clywed ar lafar gwlad trwy deulu neu ffrindiau (12%). Cafodd ffynonellau ar-lein megis gwefan – eitem newyddion (9%), y cyfryngau cymdeithasol heblaw Facebook (7%) a Facebook (7%) eu crybwyll ar lefelau is.

**Tabl 4.2: Sut y daeth pobl yn ymwybodol y gallai'r gyfraith newid mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol – y ganran a roddodd bob ateb [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr *(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---:|
| Ar y teledu – newyddion \ rhaglen | 60 (*n.255)* |
| Ar y radio – newyddion \ rhaglen | 12 (*n.49)* |
| Dywedodd rhywun wrthyf (teulu \ ffrindiau) | 12 (*n.53)* |
| Gwefan ar-lein – eitem newyddion | 9 (*n.39)* |
| Y cyfryngau cymdeithasol (heblaw Facebook) | 7 (*n.30)* |
| Facebook | 7 (*n.28)* |
| Dywedodd rhywun wrthyf (proffesiynol) | 6 (*n.27)* |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled y DU - newyddion \ erthygl | 5 (*n.20)* |
| Ddim yn gwybod | 5 (*n.23)* |
| **Ymatebion eraill a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Papur newydd lleol - hysbyseb | |

| |
|---|
| Papur newydd lleol - newyddion \ erthygl |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru - hysbyseb |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru - newyddion \ erthygl |
| Gwefan ar-lein – arall |
| Ar y teledu - hysbysebu |
| Radio - hysbysebu |


*Sail: Y rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol – digymell (421)*

*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*

*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

4.9 Ar ôl i ni ofyn am eu hymwybyddiaeth ar lefel ddigymell, cyflwynwyd disgrifiad o'r newid deddfwriaethol arfaethedig (sydd i'w weld yn Atodiad D) i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y cynnig hwn. O gael eu harwain, dywedodd ychydig mwy o ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth nag a wnaeth ar lefel ddigymell (gweler ffigur 4.1). Roedd tua hanner (49%) yn gwybod rhywbeth am y cynnig ac roedd y rhaniad yn y grŵp hwn yn weddol gyfartal rhwng y rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r cynnig (23%) a'r rhai a oedd yn ymwybodol ond nad oeddent yn siŵr o'r manylion (26%) – gweler ffigur 4.4. Caiff y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 4.4: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb – 2018 o'i gymharu â 2019)**




*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002)*

4.10 Ar y lefel ddigymell hon roedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau ychydig yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth na'r rhai heb y cyfrifoldebau hyn er nad oedd y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol ac na ellir felly eu cymhwyso i'r boblogaeth ehangach (ffigur 4.5).


**Ffigur 4.5: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn gofalu'n rheolaidd am blentyn saith oed ac iau)**




*Sail: Pawb (1,002), Yn gofalu'n rheolaidd am blentyn 7 oed ac iau (179), Ddim yn gofalu'n rheolaidd am blentyn 7 oed ac iau (823)*

4.11 Fel gydag ymwybyddiaeth ddigymell, mae gwahaniaethau'n digwydd o ran ymwybyddiaeth o gael arweiniad yn ôl oedran a gradd gymdeithasol (ffigur 4.6). Ymhlith y rhai 55+ oed, roedd ymwybyddiaeth o gael arweiniad am y ddeddfwriaeth arfaethedig yn 58% o'i gymharu â 32% ymhlith pobl 16-34 oed. Yn yr un modd, roedd 53% o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth arfaethedig o'i gymharu â 43% o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE. Cafodd y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.6: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl grŵp oedran a gradd gymdeithasol)**




*Sail: Pawb (1,002), 16-34 (246), 35-54 (264), 55+ (491), ABC1 (490), C2DE (505)*


4.12 Fel yr oedd hi gydag ymwybyddiaeth ddigymell, nodwyd lefel uwch o ymwybyddiaeth o gael arweiniad ym mhob grŵp oedran ac yn yr holl grwpiadau yn ôl gradd gymdeithasol yn 2019 o'i gymharu â 2018. Cafodd yr holl wahaniaethau ac eithrio ar gyfer pobl 16-34 (2018 – 26%, 2019 – 32%) eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

## 5. Barn am y newidiadau arfaethedig i’r ddeddfwriaeth

5.1 A hwythau wedi cael gweld y disgrifiad o’r newid arfaethedig, gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent o blaid cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol, a oeddent yn ei erbyn neu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt i allu penderfynu. Ar y cyfan, roedd y farn ynglŷn â hyn yn gymysg ond roedd mwy o ymatebwyr o blaid y newid (46%) nag yn ei erbyn (30%). Dywedodd oddeutu chwarter (24%) fod arnynt angen rhagor o wybodaeth neu nad oeddent yn gwybod eto.

5.2 Fel a ddangosir yn ffigur 5.1, mae’r gyfran o blaid diddymu amddiffyniad cosb resymol wedi cynyddu yn 2019 (2018 – 38%, 2019 – 46%). Fodd bynnag, ychydig o newid a fu yn y cyfrannau sy’n gwrthwynebu’r newid o’i gymharu ag arolwg 2018 (2018 – 31%, 2019 – 30%), gan olygu bod y rhai o blaid yn adlewyrchu’r ffaith bod llai o ymatebwyr bellach yn honni bod arnynt angen rhagor o wybodaeth / nad ydynt yn gwybod (2018 – 31%, 2019 – 24%). Cafodd y gwahaniaethau rhwng y farn yn 2018 ac yn 2019 ynglŷn â’r newid deddfwriaethol eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli’r canfyddiad i’r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 5.1: Barn am y newid arfaethedig i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb – 2018 o’i gymharu â 2019)**




*Sail: Pawb - 2018 (1,002), 2019 (1,002)*

5.3 Roedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau yn fwy tebygol o fod o blaid y newid arfaethedig (58% o blaid, 23% yn erbyn) o'i gymharu â'r rhai a oedd heb y cyfrifoldebau hyn (44% o blaid, 32% yn erbyn). Cafodd y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 5.2: Barn am y newid arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn gofalu'n rheolaidd am blentyn saith oed ac iau)**





*Sail: Pawb (1,002), Yn gofalu'n rheolaidd am blentyn 7 oed ac iau (179), Ddim yn gofalu'n rheolaidd am blentyn 7 oed ac iau (823)*

5.4 Yn achos y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant dan 7 oed a'r rhai heb y cyfrifoldebau hyn cofnodwyd cynnydd dros amser yn y cyfrannau sydd o blaid y newid deddfwriaethol. Fodd bynnag, dim ond y gwahaniaeth dros amser ymhlith y rhai heb gyfrifoldebau (2018 – 36%, 2019 – 44%) a gadarnhawyd gan brofion ystadegol ac y gellir felly eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

5.5 Canfuwyd gwahaniaethau barn yn ôl oedran hefyd. Yn y grwpiau oedran 16-34 a 35-54, roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o fod *o blaid* yn hytrach nag *yn erbyn* y newid, fel a ddangosir yn ffigur 5.3. Fodd bynnag, ymhlith y rhai 55+ oed roedd y farn wedi'i hollti'n gyfartal. Cafodd y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 5.3: Barn am y newid arfaethedig i ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (Pawb ac yn ôl grŵp oedran)**




*Sail: Pawb (1,002), 16-34 (246), 35-54 (264), 55+ (491)*

5.6 Wrth gymharu barn y tri grŵp oedran dros amser, mae'r tri grŵp yn dangos cynnydd yn y cyfrannau o blaid diddymu amddiffyniad cosb resymol (pobl 16-34 oed: 57% o blaid yn 2019 o'i gymharu â 45% yn 2018, pobl 35-54 oed: 46% o'i gymharu â 41%, 55+: 39% o'i gymharu â 31%). Caiff dau o'r newidiadau hyn dros amser, ymhlith y grwpiau oedran ieuengaf (pobl 16-34 oed) a hynaf (55+ oed) eu cadarnhau gan brofion ystadegol a gellir felly eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

5.7 Yn arolwg 2019, ni chanfuwyd gwahaniaethau yn y farn ynglŷn â'r newid arfaethedig i'r ddeddfwriaeth yn ôl rhyw na gradd gymdeithasol. Fodd bynnag, fel gyda ffigyrau cyfartalog cenedlaethol, cofnodwyd cynnydd yn nifer y rhai o blaid y newid a gostyngiadau yn y rhai yr oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth / nad oeddent yn gwybod ar gyfer yr holl grwpiau o'i gymharu ag arolwg 2018.

5.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr egluro'u rhesymau dros eu barn ynglŷn â'r newid deddfwriaethol arfaethedig. Eto, roedd hyn yn eu geiriau hwy eu hunain ac mae'r ymatebion wedi cael eu grwpio'n themâu cyffredin. Mae Tabl 5.1 yn dangos y rhesymau a nodwyd dros fod o blaid y newid arfaethedig (469 o ymatebwyr). Yr ymateb mwyaf mynych oedd nad oeddent yn cytuno â smacio neu gosbi plant yn gorfforol (40% o'r rhai a oedd o blaid y newid arfaethedig). Hwn oedd yr ymateb mwyaf mynych yn arolwg 2018 hefyd (38%). Amlygodd eraill fod ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da (19%), nad yw'n wers dda a'i fod yn rhoi anogaeth i ddefnyddio trais (8%) yn ogystal ag ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar y niwed a wneir i blant megis dweud mai cam-drin ydyw / y gall arwain at gam-drin (9%) a bod rhai rhieni'n mynd yn rhy bell (7%).

**Tabl 5.1: Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr *(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Ddim yn cytuno â smacio \ cosbi plant yn gorfforol | 40 (*n.184)* |
| Mae ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da \ disgyblaeth | 19 (*n.88)* |
| Cam-drin ydyw / gall arwain at gam-drin | 9 (*n.42)* |
| Mae rhai rhieni'n mynd yn rhy bell | 7 (*n.31)* |
| Bydd yn helpu i amddiffyn plant | 6 (*n.26)* |
| Nid yw'n gweithio \ nid yw'n angenrheidiol | 5 (*n.25)* |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mae tap yn iawn \ slap fach \ iawn os nad yw rhywun yn mynd yn rhy bell | |
| Mae'n niweidiol i blant | |
| Mae ei angen | |
| Nid yw'n wers dda \ mae'n rhoi anogaeth i ddefnyddio trais | |
| Cefais i fy nharo pan oeddwn yn blentyn | |
| Dydw i erioed wedi smacio fy mhlant | |

*Sail: Y rhai sydd o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (469)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

5.9 O'r rhai sydd yn erbyn y newid arfaethedig i'r ddeddfwriaeth *(*298 o ymatebwyr*)*, ar gyfer oddeutu 3 ymhob 10 (28%) cafodd eu gwrthwynebiad ei amodi trwy ddweud ei fod yn iawn os nad yw'n mynd yn rhy bell / os yw'n gosb resymol.

5.10 Roedd y prif resymau eraill dros wrthwynebu'r newid yn cynnwys rheoli ymddygiad a disgyblaeth. Roedd dau ymhob deg (19%) o'r rhai a oedd yn erbyn y newid yn meddwl bod angen y sefyllfa gyfredol i reoli ymddygiad / disgyblu'r plentyn / addysgu am barch / dangos ffiniau. Fe wnaeth eraill sylwadau am y diffyg disgyblaeth ehangach mewn cymdeithas – nid oes unrhyw ddisgyblaeth / parch y dyddiau hyn / mae plant yn ymddwyn yn wael (6%).

5.11 Y tu hwnt i'r rhesymau a drafodwyd ym mharagraff 5.9 a 5.10, roedd y brif thema arall o ran rhesymau dros wrthwynebu'r newid yn canolbwyntio ar bwy ddylai fod yn gyfrifol am ddisgyblu plant. Roedd cyfanswm o 18% o'r rhai a oedd yn erbyn y newid yn meddwl y dylid caniatáu i rieni wneud y penderfyniad hwn ac roedd 4% yn meddwl na ddylai'r Llywodraeth ymwneud â'r mater. Ceir rhestr lawn o'r atebion yn nhabl 5.2

**Tabl 5.2: Allwch chi ddweud wrthyf pan eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** ***(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Mae'n iawn os nad yw'n mynd yn rhy bell \ os yw'n gosb resymol | 28 (*n.84)* |
| Mae ei angen i reoli ymddygiad \ disgyblu'r plentyn \ addysgu am barch \ dangos ffiniau | 19 (*n.56)* |
| Dylai rhiant gael cosbi ei blentyn \ dylai fod â dewis \ dylai gael gwneud y penderfyniad | 18 (*n.53)* |
| Nid yw'n gwneud unrhyw niwed \ ni wnaeth unrhyw ddrwg i mi \ i'm plant i | 8 (*n.23)* |
| Does dim disgyblaeth y dyddiau hyn \ mae plant yn ymddwyn yn wael \ dim parch | 6 (*n.19)* |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Anodd i'w blismona \ i'w orfodi \ i ddarparu adnoddau ar ei gyfer | |
| Mae pob amgylchiad \ plentyn yn wahanol | |
| Ni ddylai'r Llywodraeth ymwneud â'r mater | |
| Mae'r gyfraith yn iawn ar hyn o bryd \ nid oes angen cyfraith newydd | |
| Nid oes mo'i angen | |
| Iawn pan fo'r plentyn mewn perygl | |
| Dros ben llestri \ ddim yn rhesymol | |
| Ni ddylai gael ei wneud yn drosedd | |
| I'w ddefnyddio fel dewis olaf | |

*Sail: Y rhai sydd yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (298)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

5.12 O ran y rhai yr oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth cyn penderfynu (152 o ymatebwyr) yn bennaf roedd arnynt eisiau naill ai rhagor o fanylion neu wybodaeth ynglŷn â sut y byddai'n gweithio (39% o'r rhai yr oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth) neu'n benodol hoffent pe bai mwy o eglurder yn y diffiniadau a oedd yn rhan o'r ddeddfwriaeth:

- Beth sy'n gyfystyr â smacio \ ymosod, yr sy'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â'r hyn nad yw'n cael ei ganiatáu (18%)
- Diffiniad o gosb resymol (9%)

5.13 Mae'r ymatebion hyn yn debyg iawn i'r rhai a gafwyd yn arolwg 2018.

**Tabl 5.3: Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen? [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** ***(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Rhagor o fanylion \ rhagor o wybodaeth \ sut y byddai'n gweithio | 39 (*n.61*) |
| Beth sy'n gyfystyr â smacio \ ymosod, yr hyn sy'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â'r hyn nad yw'n cael ei ganiatáu | 18 (*n.28*) |
| Diffiniad o gosb resymol | 9 (*n.15*) |
| Sut y byddai'n cael ei blismona \ ei orfodi \ sut i ddarparu adnoddau ar ei gyfer | 6 (*n.9*) |
| Ddim yn gwybod | 16 (*n.25*) |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Diffiniadau \ enghreifftiau | |
| Gwybodaeth am y gyfraith bresennol | |
| Cosb \ cyhuddiadau i rieni | |
| Ymchwil \ tystiolaeth o effaith smacio | |
| Diogelu \ amddiffyn rhieni | |

*Sail: Y rhai y mae angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu a ydynt o blaid ynteu yn erbyn newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (152)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

## 6. Casgliadau

6.1 Mae'r farn yn gymysg ynglŷn â'r gosodiad 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' ond roedd y cyhoedd yn fwy tebygol o anghytuno (55%) â'r gosodiad na chytuno ag ef (31%). Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng y cyfrannau sy'n anghytuno ac yn cytuno wedi ehangu o'i gymharu ag arolwg sylfaen 2018 (49% wedi anghytuno, 35% wedi cytuno). Mae'r cydbwysedd barn yn dal i fod yn gysylltiedig ag oedran yr ymatebydd gyda'r rhai dros 55 oed deirgwaith yn fwy tebygol o gytuno 'ei bod weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' na'r rhai 16-34 oed (45% o'i gymharu â 15%). Roedd y rhai sy'n gysylltiedig â rheoli ymddygiad plant bach (y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau) yn llai tebygol o gytuno bod smacio weithiau'n angenrheidiol na'r rhai heb y cyfrifoldebau hyn.

6.2 Ymddengys fod rhywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch statws cyfredol deddfwriaeth mewn perthynas â smacio. Roedd dros hanner (55%) y rhai a arolygwyd yn meddwl nad oedd y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio eu plant. Mae hyn yn dal yn ddigyfnewid i raddau helaeth ers arolwg 2018. Nid oedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau yn fwy tebygol o gwbl o fod yn ymwybodol o'r statws deddfwriaethol presennol na'r rhai heb y cyfrifoldebau hyn.

6.3 Ceir ymwybyddiaeth gynyddol o newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth a fyddai'n arwain at ddiddymu amddiffyniad cosb resymol. Pan gânt eu harwain o ran beth allai'r newid ei olygu, mae bron i hanner (49%) yn dweud bod ganddynt ymwybyddiaeth o gwbl o hyn o'i gymharu ag oddeutu traean (34%) yn arolwg sylfaen 2018. Nid oedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau yn fwy tebygol o gwbl o fod yn ymwybodol o'r newid arfaethedig na'r rhai heb y cyfrifoldebau gofalu hyn. Mewn cyferbyniad, roedd gwahaniaethau mewn ymwybyddiaeth o'r newid yn amlwg yn ôl oedran (roedd ymatebwyr hŷn yn fwy ymwybodol) ac yn ôl gradd gymdeithasol (roedd pobl yng ngraddau ABC1 yn fwy ymwybodol).

6.4 Bu peth newid hefyd yn y farn ynglŷn â'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae'r gyfran *yn erbyn* y newid yn y ddeddfwriaeth, sef 30%, yn dal i fod yn gyson. Fodd bynnag, mae'r rhai *o blaid* y newid wedi cynyddu i 46% (o 38% yn yr arolwg sylfaen)

ac mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith bod llai o ymatebwyr bellach sy’n honni bod arnynt angen rhagor o wybodaeth am y newid i’r ddeddfwriaeth neu eu bod yn ansicr ynghylch eu barn. Mae ‘rhoi’r gorau i eistedd ar y gamfa’ fel hyn gan gyfran o’r boblogaeth yn cyd-daro ag ymwybyddiaeth gynyddol o’r newid arfaethedig y mae’r arolwg wedi’i gofnodi. Roedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant dan 7 ac ymatebwyr iau’n fwy tebygol o ffafrio’r newid mewn deddfwriaeth.

6.5 Y tri rheswm mwyaf mynych a ddarparwyd gan y rhai a oedd yn erbyn y ddeddfwriaeth oedd bod angen y statws cyfredol i reoli / disgyblu plant, ei fod yn iawn cyn belled nad yw pethau’n mynd yn rhy bell ac mai rhieni ac nid y Llywodraeth ddylai benderfynu ar y materion hyn. I’r rhai a oedd o blaid y newid deddfwriaethol, roedd rhesymau’n cynnwys peidio â chytuno â chosbi plant yn gorfforol, bod ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da ac nad yw cosbi’n gorfforol yn gweithio. Roedd ar y rhai a oedd heb benderfynu ynghylch y mater eisiau rhagor o wybodaeth am sut y byddai’n gweithio a mwy o eglurder ynghylch diffiniadau a oedd yn rhan o’r ddeddfwriaeth. Roedd y rhesymau hyn, ar y cyfan, yn debyg i’r rhai a nodwyd yn yr arolwg sylfaen yn 2018.

## Atodiad A – Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar rianta,

Mae'r Tabl isod yn nodi cyhoeddiadau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar rianta a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru dros y chwe blynedd ddiwethaf.

**Tabl A.1: Ymchwil Flaenorol Berthnasol gan Lywodraeth Cymru**

| Teitl | Dull a sampl | Diben |
|---|---|---|
| **Agweddau tuag at arferion rhianta a disgyblu plant**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2014** | • 14 o grwpiau ffocws (70 o gyfranogwyr)<br>• Rhieni plant dan 18<br>• Yn 2013 | Archwilio barn rhieni am arfer rhianta gan gynnwys disgyblu. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio cymorth rhianta. |
| **Rheoli ymddygiad, agweddau ac arferion plant: Arolwg Sylfaenol 2013**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2014** | • Arolwg Omnibws Meintiol<br>• 1,022 o oedolion (56% wedi bod yn rhieni erioed, 27% yn rhieni i blant dan 18)<br>• Yn 2013 | Casglu data ar agweddau'r cyhoedd (gan gynnwys rhieni ac oedolion nad ydynt yn rhieni) tuag at arferion rhianta gan gynnwys disgyblaeth. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio cymorth rhianta. |
| **Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant bach 2015**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2016** | • Meintiol – arolwg ffôn<br>• 387 o rieni/ gwarcheidwaid plant dan 7 oed<br>• Gan ddefnyddio rhestr ailgysylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>• Yn 2015 | Pwyso a mesur agweddau rhieni â phlant bach at rianta a rheoli ymddygiad plant. Gwaith maes a gyflawnwyd cyn lansio'r ymgyrch cymorth rhianta *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo* |
| **Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant bach 2017**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2018** | • Meintiol – arolwg ffôn<br>• 269 o rieni/ gwarcheidwaid plant dan 7 oed<br>• Gan ddefnyddio arolwg ailgysylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>• Yn 2017 | Pwyso a mesur agweddau rhieni â phlant bach at rianta a rheoli ymddygiad plant. Roedd yr arolwg hwn fwy neu lai'n ailadrodd ymchwil flaenorol yn 2015 ac fe helpodd i oleuo'r gwaith paratoadol ar gyfer y cynnig i wahardd cosb gorfforol. |
| **Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: arolwg sylfaenol, 2018**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2019** | • Meintiol – arolwg wyneb yn wyneb<br>• 1,002 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed<br>• Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort<br>• Yn 2018 | Arolwg sylfaen ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn. |

## Atodiad B – Holiadur yr Arolwg

**Mae'r adran hon yn ymwneud â chosbi'n gorfforol sy'n cynnwys smacio**

**1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn?**

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod (DIGYMELL YN UNIG) -

**2. Ydych chi'n meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**3. Nid yw'r gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol (sy'n cynnwys smacio). Pa lefel o gosb mae'r gyfraith yn ei chaniatáu yn eich tyb chi? Dewiswch faint bynnag sy'n berthnasol yn eich tyb chi.**

**Cosb gorfforol sydd:**

- Yn gadael dim marc o gwbl ar y plentyn
- Yn achosi i'r croen gochi dros dro
- Yn gadael clais sy'n para am ychydig ddyddiau
- Yn gadael marciau a chleisiau sy'n para am yn hwy nag ychydig ddyddiau ond nad yw'n arwain at anaf corfforol parhaol
- Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL)
- Yn gwrthod (PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL)

**4. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**5. Allwch chi ddweud wrthyf sut allai'r gyfraith newid yn eich tyb chi?**

**6. Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?**

PEIDIWCH AG ARWAIN

- Ar y teledu – newyddion / rhaglen
- Ar y teledu – hysbysebu
- Ar y radio – newyddion / rhaglen
- Ar y radio – hysbysebu
- Mewn papur newydd lleol – newyddion / erthygl
- Mewn papur newydd lleol – hysbysebu
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru – newyddion / erthygl
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru – hysbysebu
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled y DU – newyddion / erthygl
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled y DU – hysbysebu
- Gwefan ar-lein – eitem newyddion
- Gwefan ar-lein – arall
- Y cyfryngau cymdeithasol (heb gynnwys Facebook)
- Facebook
- Mewn cylchgrawn
- Dywedodd rhywun wrthyf (proffesiynol)
- Dywedodd rhywun wrthyf (teulu/ffrind)

Yng Nghymru, mae'r Llywodraeth yn ystyried newid y gyfraith mewn perthynas â chosbi'n gorfforol gan gynnwys smacio. Ar hyn o bryd mae rhieni'n gallu defnyddio amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod corfforol, ond nid yn erbyn cyhuddiadau mwy difrifol o, er enghraifft, wir niwed corfforol. Os caiff y ddeddfwriaeth ei phasio ni fydd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael mwyach yng Nghymru i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a'r rheiny sy'n gweithredu in loco parentis sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod ar blentyn neu guro plentyn yn eu gofal. Os yw'r heddlu'n dod o hyd i ddigon o dystiolaeth sy'n golygu bod gobaith realistig o gael rhywun yn euog bydd yn rhaid iddynt ystyried a yw er lles y cyhoedd eu bod yn dwyn cyhuddiad.

**7. Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y cynnig hwn o gwbl?**

- Ydw, rwy'n ymwybodol o'r cynnig
- Ydw – ond nid oeddwn yn siŵr o'r manylion
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**8. Pa rai o'r gosodiadau canlynol ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich barn chi orau?**

- Rwyf o blaid newid y gyfraith i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol
- Rwyf yn erbyn newid y gyfraith i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol
- Mae angen rhagor o wybodaeth arnaf i benderfynu
- Ddim yn gwybod

**9. a) Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?**

PENAGORED

**b) Allwch chi ddweud wrthyf pan eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?**

PENAGORED

**c) Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth ychwanegol y mae ei hangen arnoch?**

PENAGORED

## Atodiad C – Dull Ymchwil

A1.1 Cynhaliwyd yr ymchwil hon trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort. Mae arolygon omnibws yn ddull sydd wedi hen ennill ei blwyf o gynnal ymchwil i'r farchnad ac ymchwil gymdeithasol. Fel y mae eu henw'n ei awgrymu, maent yn galluogi grŵp o ddefnyddwyr i rannu'r un cyfrwng arolygu, gan ddwyn budd o ran costau is.

A1.2 Caiff y cyfweliadau eu gwasgaru ar draws 69 o leoliadau gwahanol ledled Cymru, gyda phwyntiau'n cael eu dewis ar hap ym mhob ton. Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yw'r brif uned samplu. Ardaloedd a ddatblygwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ôl Cyfrifiad 2001 yw ACEHIoedd ac mae ganddynt boblogaeth o ryw 1,600 ar gyfartaledd. Dewisir pwyntiau samplu â thebygolrwydd sy'n gymesur â'r boblogaeth oedolion breswyl ar ôl haenu fesul rhanbarth (Awdurdod Lleol) a gradd gymdeithasol (y gyfran o AB).

A1.3 Ym mhob lleoliad samplu, ceir rheolaethau cwota pleth ar oedran o fewn rhyw yn ogystal â gradd gymdeithasol a statws gweithio. Pennir cwotâu fel eu bod yn adlewyrchu proffil demograffig hysbys trigolion Cymru yn ôl yr wybodaeth o'r Cyfrifiad diweddaraf.

A1.4 Cynhelir yr holl gyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweld Personol gyda Chymorth Cyfrifiadur). Ni chyfwelir â mwy nag un unigolyn ym mhob aelwyd. Dewisir sampl newydd o leoliadau cyfweld ac unigolion ar gyfer pob arolwg.

A1.5 Ar y cam dadansoddi, caiff y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn pob rhyw o fewn y grwpiad Awdurdod Lleol i roi i bob cell ei mynychder cywir o fewn cyfanswm Cymru sy'n deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011. Cyflwynir y ffigyrau yn yr adroddiad hwn i'r ganran lawn agosaf.

### Samplu cwota cyfrannol

A1.6 Pan gaiff data arolygon eu profi o safbwynt arwyddocâd ystadegol, gwneir tybiaeth bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth

berthnasol. Fodd bynnag, gan bod Arolwg Omnibws Cymru'n defnyddio samplu cwota cyfrannol (nid hap-samplu), nid yw arwyddocâd ystadegol gwirioneddol yn gallu cael ei gadarnhau, a bod yn fanwl gywir. Felly, pan fo gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn cael ei ddisgrifio fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth sy'n arwyddocaol o safbwynt ffug-ystadegol ar y lefel hyder o 95 y cant. Ystyr hyn yw, pe bai'r arolwg yn defnyddio hap-sampl, byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad trwy siawns yn llai nag un mewn 20.

**Dadansoddiad Chi-sgwâr**

A1.7 Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad i bennu a yw perthynas yr arsylwyd arni rhwng dau newidyn categoreiddiol yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm y boblogaeth oedolion 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru).

## Atodiad D – Disgrifiad o’r newid arfaethedig i’r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i’r ymatebwyr yn arolwg mis Tachwedd 2019

Yng Nghymru, mae’r Llywodraeth yn ystyried newid y gyfraith mewn perthynas â chosbi’n gorfforol gan gynnwys smacio. Ar hyn o bryd mae rhieni’n gallu defnyddio amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod corfforol, ond nid yn erbyn cyhuddiadau mwy difrifol o, er enghraifft, wir niwed corfforol. Os caiff y ddeddfwriaeth ei phasio ni fydd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael mwyach yng Nghymru i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a’r rheiny sy’n gweithredu in loco parentis sy’n wynebu cyhuddiad o ymosod ar blentyn neu guro plentyn yn eu gofal. Os yw’r heddlu’n dod o hyd i ddigon o dystiolaeth sy’n golygu bod gobaith realistig o gael rhywun yn euog bydd yn rhaid iddynt ystyried a yw er lles y cyhoedd eu bod yn dwyn cyhuddiad.

## Atodiad E – Diffiniad o raddau cymdeithasol

Mae Tabl A.2, isod, yn rhoi diffiniad o'r dosbarthiadau o raddau cymdeithasol [4] a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad

**Tabl A.2: Diffiniadau o raddau cymdeithasol**

| Gradd gymdeithasol | Diffiniad |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol uchel |
| B | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol ganolradd |
| C1 | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol oruchwyliol, glerigol ac iau |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw crefftus |
| D | Gweithiwr llaw lled-grefftus a di-grefft |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr radd isaf, pobl ddi-waith â buddion y wladwriaeth yn unig |

[4] National Readership Survey definitions - http://www.nrs.co.uk/nrs-print/lifestyle-and-classification-data/social-grade/

## Atodiad F – Meintiau is-samplau

Mae Tabl A.3, isod, yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad. Rhoddir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau heb eu pwysoli ac wedi'u pwysoli.

**Tabl A.3: Meintiau samplau'r is-grwpiau**

| Is-sampl | Sampl heb ei phwysoli | Sampl wedi'i phwysoli |
|---|---|---|
| **Rhyw** | | |
| Gwrywaidd | 468 | 487 |
| Benywaidd | 534 | 515 |
| **Oedran** | | |
| 16-34 | 308 | 293 |
| 35-54 | 280 | 327 |
| 55+ | 414 | 381 |
| **Gradd gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 516 | 518 |
| C2DE | 486 | 484 |
| **Cyfrifoldebau gofalu am blentyn 7 ac iau** | | |
| Oes | 179 | 174 |
| Nac oes | 823 | 828 |